

**COFNODION 'HEB EU CADARNHAU' O GYFARFOD 'MEWN PWYLLGOR'
O FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (BIP CTM),
A GYNHALIWDYDD DDYDD MERCHER 18 MAWRTH 2020,
YN NHŶ YNYSMEURIG, ABERCYNON**

YN BRESENNOL:

Maria Thomas	Is-gadeirydd / Aelod Annibynnol (yn y Gadair)
Nicola Milligan	Aelod Annibynnol
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol
Mel Jehu	Aelod Annibynnol
Steve Webster	Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael
Hywel Daniel	Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (Dros dro)
Greg Dix	Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion

YN MYNYCHU:

Georgina Galletly	Cyfarwyddwr Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro)
Iain Worby	Dirprwy Uwch Swyddog Cyfrifol, Cynllunio Strategol a Gweithredol (trwy dele- gynadledda)
Wendy Penrhyn-Jones	Pennaeth Gweinyddiaeth Gorfforaethol (Ysgrifennydd)

UHB/B/20/34

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

UHB/B/20/35

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

DERBYNIWYD ymddiheuriadau gan Marcus Longley, y Cadeirydd; Sharon Hopkins, y Prif Weithredwr; Alan Lawrie, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl a Liz Wilkinson, Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd.

(Yn sgil pandemig y Coronafeirws, gwnaed penderfyniad ar y cyd â Chadeirydd BIP CTM i esgusodi'r Aelodau Bwrdd eraill gan fod digon o aelodau eraill yn bresennol i sicrhau cworwm).

UHB/B/20/036 **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

UHB/B/20/037 **YSBYTY'R TYWYSOG SIARL PROSIECT Y LLAWR GWAELOD A'R LLAWR CYNTAF - AIL GAM YR ACHOS BUSNES - DIWYGIADAU I'R ACHOS BUSNES LLAWN**

Cyflwynodd S Webster yr adroddiad a dywedodd fod yr adroddiad yn cael ei drafod mewn sesiwn gaeedig oherwydd materion yn ymwneud â sensitifrwydd masnachol.

Atgoffodd y Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael Aelodau'r Bwrdd fod yr Achos Busnes Llawn ar gyfer y prosiect wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2019 ond ers hynny mae wedi bod yn destun nifer o welliannau a newidiadau. **NODODD** aelodau fod y rhain yn ymwneud â'r strategaeth i symud cleifion mewnol i leoliadau eraill, newidiadau i brisiau'r contractwr, cyllideb ddiwygiedig yn gysylltiedig ag ail-farchnata a sefyllfa ariannol y contractwr.

Tywysodd I Worby Aelodau'r Bwrdd trwy'r materion pwysicaf o ran y newidiadau hyn.

NODODD Aelodau'r Bwrdd fod y prosiect hwn yn un mawr a heriol o ran gwaith adeiladu, ac y byddai'n defnyddio'r lle ychwanegol ar safle Ysbyty'r Tywysog Siarl yn llawn.

Gofynnodd G Dix am gadarnhad bod cydweithwyr ym maes Atal a Rheoli Heintiau wedi cymryd rhan lawn yn y trafodaethau ynghylch y prosiect hwn. Cadarnhaodd Iain Worby fod hyn yn wir a bod rhagor o gyllid wedi'i gymeradwyo i benodi Nyrs Diogelu a Rheoli Heintiau ychwanegol a fydd yn rhan annatod o dîm cynllunio'r prosiect.

Dywedodd S Webster y byddai cynnydd mewn costau refeniw na ellid ei osgoi ond y byddai'r prosiect gorffenedig yn arwain at well effeithlonrwydd yn gyffredinol ac y byddai'r mater hwn yn cael ei ystyried wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol. **NODODD** Aelodau'r Bwrdd y byddai ffioedd hanesyddol yn cael eu had-dalu i BIP CTM. Nododd S Webster fod Llywodraeth Cymru i ystyried yr Achos Busnes Llawn yn ystod wythnos olaf Mawrth 2020, pe bai'r Bwrdd yn cymeradwyo'r achos busnes. Y dyddiad cychwyn a ragwelir ar y safle oedd 18 Mai 2020 ond **NODODD** Aelodau'r Bwrdd fod y dyddiad hwnnw'n dibynnu ar effaith bosibl pandemig COVID-19.

Rhif yr Eitem ar yr Agenda 2.2a

Dywedodd M Jehu ei fod yn credu y dylai'r prosiect fynd yn ei flaen gan mai'r prosiect hwnnw oedd yr opsiwn gorau o dan yr amgylchiadau. Cytunodd D Jouvenat a dywedodd fod yr adroddiad yn darparu'r sicrwydd angenrheidiol.

Diolchodd yr Is-gadeirydd ac Aelodau'r Bwrdd i I Worby a'i dîm am eu gwaith caled mewn perthynas â'r prosiect hwn.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

- **NODI'R** adroddiad;
- **CYMERADWYO'R** newidiadau i'r Achos Busnes Llawn a'i anfon ymlaen at Lywodraeth Cymru;
- **CYMERADWYO** Gwariant Disgresiynol o £ 1m mewn perthynas â darpariaeth ar gyfer COVID-19 pe bai hyn yn angenrheidiol.

UHB/B/20/008/xx Nid oedd unrhyw faterion pellach felly cafodd y cyfarfod ei derfynu.

LLOFNODWYD:.....

Maria K Thomas, Is-gadeirydd

DYDDIAD:.....